CITB MEWN PARTNERIAETH

# Prentisiaethau Adeiladu



Canllaw i unigolion sy'n ystyried gyrfa adeiladu

BizEd Projects CIC

citb Cymru Wales






# PRENTISIAETHAU

**Yn y llyfryn hwn, byddwn yn edrych ar yr hyn y mae prentisiaeth mewn adeiladu yn ei olygu a'i fanteision o gymharu â llwybrau dysgu eraill, megis prifysgol.**

Mae'n cynnwys enghreifftiau go iawn o deithiau trawiadol pobl ym maes adeiladu ac mae'n arf gwych i'w ddefnyddio:

- wrth benderfynu ai adeiladu yw'r opsiwn cywir i chi
- cymryd y camau cyntaf i gychwyn eich taith o fewn y diwydiant

## Pam dewis Adeiladu?

Mae'r diwydiant adeiladu o'n cwmpas, gan siapio popeth a wnawn yn ein bywydau bob dydd. O adeiladu'r ysgolion ar gyfer y dyfodol, y cartrefi yr ydym yn byw ynddynt, i'r ffyrdd yr ydym yn gyrru arnynt. Heb y seilwaith a ddarperir gan adeiladu, ni all cymdeithas fodern weithredu.

Galw mawr am weithwyr oherwydd prinder sgiliau, gweithwyr yn ymddeol a thechnolegau newydd...

"y diwydiant sy'n tyfu gyflymaf yn y byd – disgwylir iddo dyfu 47% erbyn 2030" (Global Britain, 2021)

"157,000 o swyddi newydd i'w creu ym maes adeiladu erbyn 2026" (CITB, 2021)

'Does dim terfyn mewn gyrfaoedd adeiladu! www.amadeiladu.org

Darllenwch ymlaen am fwy o ffeithiau am Brentisiaethau adeiladu...

# BETH YW PRENTISIAETH?

**Fel prentis, byddwch yn ennill cyflog wrth ddysgu drwy gwblhau eich hyfforddiant fel rhan o swydd llawn amser â thâl. Mae'n cyfuno 20% o ddysgu mewn coleg neu â darparwr hyfforddiant ag 80% o brofiad ar y safle.**

Yn ystod y brentisiaeth byddwch yn gweithio gyda staff profiadol, ar y safle ac mewn darparwr hyfforddiant, wrth ennill cymwysterau trwy ddysgu ymarferol ac academaidd.

Tra bydd eich cyflogwr yn rhoi'r tasgau i chi eu cyflawni, bydd y darparwr hyfforddiant yn rhoi'r sgiliau damcaniaethol i chi i gyflawni'r tasgau hynny.

## Pam dewis prentisiaeth?

✔ Enillwch brofiad ymarferol a chymwysterau diwydiant-benodol i roi hwb i'ch gyrfa!

✔ Gallwch ddysgu gan arbenigwyr yn y diwydiant i ddatblygu'r sgiliau a'r profiad penodol sydd eu hangen ar eich crefft ddewisol, wrth elwa o arweiniad a chymorth parhaus.

✔ Gyda channoedd o brentisiaethau amrywiol i ddewis ohonynt, mae rhywbeth at ddant pawb, gan gynnwys Prentisiaethau Gradd.

✔ Yn ddewis amgen hygyrch, hyblyg a hyfyw i brifysgol, bydd prentisiaethau yn eich galluogi i aros ar y blaen i raddedigion trwy ennill profiad swydd-benodol.

**Gadewch i ni edrych ar rai o fanteision ac anfanteision prentisiaeth yn erbyn prifysgol?**

 © CITB & BizEd Projects CIC 2023



## PRENTISIAETH yn erbyn PRIFYSGOL

**PRENTISIAETH**

- Mae'n cymryd 1-5 mlynedd i'w gwblhau, yn dibynnu ar lefel eich prentisiaeth.
- Dechrau eich gyrfa yn syth ar ôl ysgol gyda llai o gymwysterau a phrofiad.
- Bydd eich amser yn cael ei rannu rhwng eich cyflogwr a'r darparwr hyfforddiant.
- Canolbwyntio ar ddysgu sgiliau ymarferol sy'n ymwneud â rôl swydd benodol.
- Dysgu wrth ymgolli'n llwyr yn eich diwydiant.
- **Ennill wrth ddysgu wrth aros yn ddi-ddyled!**

**PRIFYSGOL**

- Mae graddau amser llawn yn cymryd 3-4 blynedd i'w cwblhau.
- Gallwch wneud cais am swyddi lefel uwch ar ôl graddio – ond mae llawer o'r rhain yn gofyn am brofiad nad yw'n hawdd ei gyflawni wrth astudio yn y brifysgol.
- Amser a dreulir rhwng darlithoedd a seminarau.
- Mae'r ffocws ar astudiaeth academaidd, er bod llawer o raddau cysylltiedig ag adeiladu yn cynnig blwyddyn mewn diwydiant.
- Ffioedd Dysgu o hyd at £9,520 y flwyddyn yn ychwanegol at gostau byw i ffwrdd yn y brifysgol.

© CITB & BizEd Projects CIC 2023 

# FELLY, BETH NESAF?

**Felly, rydych chi wedi penderfynu mai adeiladu yw'r diwydiant i chi! Efallai na fydd rhai ohonoch yn gwybod pa grefft yr ydych am fynd iddi eto, felly am ragor o wybodaeth a chymorth wrth benderfynu ar y grefft cywir, cliciwch yma.**

**I'r rhai ohonoch sy'n gwybod pa grefft yr ydych am ei wneud, mae'r ddelwedd ar y dde yn dangos rhai o'r gwahanol lwybrau ac yn rhoi syniad i chi o'r hyn i'w wneud nesaf.**

## Cyrsiau coleg amser llawn

Cofrestrwch ar gwrs amser llawn yn y coleg i gael sgiliau, profiad, a chymhwyster yn eich crefft ddewisol gan eich gwneud yn ymgeisydd mwy dymunol ar gyfer prentisiaethau.

Os nad ydych yn barod am waith llawn amser mae hon yn ffordd wych o gychwyn eich taith ar eich cyflymder eich hun ac ennill y gofynion mynediad gofynnol os oes angen, h.y. TGAU Mathemateg a Saesneg.

Unwaith y byddwch wedi cofrestru ar gwrs amser llawn gallwch barhau i chwilio a gwneud cais am brentisiaethau. Os byddwch yn llwyddiannus byddwch yn gallu trosglwyddo i'r cwrs prentisiaeth.

## Chwilio am brentisiaeth

Mae llawer o gyflogwyr yn hysbysebu eu cyfleoedd ar-lein a gallwch ddechrau eich chwiliad yma neu drwy wefannau hysbysebu swyddi eraill.

Os ydych chi'n bodloni'r gofynion mynediad gallwch chi ddechrau chwilio nawr am brentisiaeth heb brofiad neu gymwysterau blaenorol.

## Bydd cwmnïau yn aml yn cysylltu â cholegau lleol yn uniongyrchol wrth chwilio am ymgeisydd addas

Rydym hefyd yn eich annog i fynd at gyflogwyr lleol yn uniongyrchol wrth ichi chwilio am brentisiaeth.


© CITB & BizEd Projects CIC 2023

# LLWYBRAU I BRENTISIAETH

Edrychwch ar y 3 ffordd wahanol hyn y gallwch chi gael mynediad at brentisiaeth Lefel 3.




© CITB & BizEd Projects CIC 2023

# AMRYWIAETH MEWN ADEILADU

**Mae symudiad amlwg a mawr ei angen o fewn adeiladu i ddealltwriaeth well a derbyniad o'r manteision y mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn eu chwarae.**

Ar hyn o bryd, mae'r sector adeiladu yn parhau i fod yn ddiwydiant sy'n cael ei ddominyddu gan ddynion ond yn y blynyddoedd diwethaf bu mwy o ffocws ar wella cynhwysiant ac amrywiaeth gan gyflogwyr a chyrff diwydiant.

Mae gweithlu amrywiol yn dod â syniadau gwahanol i'r bwrdd, gan sicrhau bod yr ystod ehangaf o syniadau'n cael eu harchwilio.

Mae hefyd yn gwneud y diwydiant yn fwy cynrychioliadol o'i gwsmeriaid a'r gymdeithas ehangach.

Mae'r amgylchedd adeiledig ar gyfer pawb a pho fwyaf cynhwysol y gall y diwydiant fod, y mwyaf y bydd yr amgylchedd adeiledig yn gwasanaethu anghenion pawb yn ein cymunedau.

**O ba gefndir bynnag yr ydych a sut bynnag y byddwch yn ei nodi, mae lle i chi yn y diwydiant adeiladu.**

Mae gennym dipyn o ffordd i fynd o hyd ond gyda'ch cymorth chi, gallwn bontio'r bwlch a datblygu gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymdeithas.

**Dewch yn arloeswr amrywiaeth a chynhwysiant mewn adeiladu heddiw!**





Image: CITB's annual Women in Construction event

# NEWID GYRFA?





*Sesiwn Holi ac Ateb gydag Antonia Morgan, o nyrs i Brentis Gwaith Coed ar y Safle Lefel 3*

***Pam wnaethoch chi symud i brentisiaeth adeiladu?***

Roeddwn i'n gweithio fel nyrs ac roeddwn i'n gweld gweithio'n llawn amser ym maes gofal iechyd yn dipyn o straen. I ddechrau, doeddwn i ddim eisiau gadael y proffesiwn yn gyfan gwbl ond roeddwn i eisiau dod o hyd i rywbeth y gallwn o bosibl ei wneud ochr yn ochr â nyrsio.

Rwyf bob amser wedi cael fy mhlesio gan bobl sy'n gallu trwsio pethau a gwneud pethau o'r newydd ac roeddwn i eisiau parhau i wneud rhywbeth ymarferol. Yna dechreuais ymchwilio i wahanol opsiynau hyfforddi ar gyfer gwaith coed. Penderfynais mai prentisiaeth oedd y llwybr cywir i mi gan ei fod wedi rhoi digon o amser i mi fireinio fy sgiliau.

***Beth ydych chi'n ei wneud, o ddydd i ddydd?***

Mae diwrnod arferol yn dibynnu ar y swydd rydyn ni'n gweithio arni. Un diwrnod efallai y byddwn ni lan yn gosod sgaffaldiau yn ffitio ffasgia plastig ac estyll tywydd a'r diwrnod nesaf gallem fod mewn tŷ Sioraidd yn trwsio hen ddrws derw. Rwy'n hoffi'r amrywiaeth o swyddi a dysgu sgiliau newydd ar hyd y ffordd.

***Beth fu eich brwydr fwyaf?***

Fel rhywun sy'n ymgymryd â phrentisiaeth yn hŷn, gall fod yn anodd gan ei fod yn aml yn golygu cymryd toriad cyflog. Roeddwn yn ffodus y gallwn fforddio gwneud hynny gan fy mod yn dal i weithio fel nyrs rai penwythnosau, sy'n helpu. Os ydych chi'n teimlo ei fod yn opsiwn i chi, cysylltwch â'ch canolfan hyfforddi leol.


© CITB & BizEd Projects CIC 2023

# O NERTH I NERTH!



ASTUDIAETH ACHOS

*Sesiwn Holi ac Ateb gydag Elis Dafydd, a gafodd ei benodi gan RV Edwards Roofing fel prentis yn 2022 ac sydd am fod yn gwbl gymwys yn fuan...*

***Pam wnaethoch chi ddewis adeiladu a phrentisiaeth?***

Dyna rydw i wedi bod eisiau ei wneud erioed. Mae fy nhad yn gweithio ym maes adeiladu a thrwy ei helpu a'r swyddi a gefais ar ôl gorffen yn yr ysgol, rwyf wedi bod yn gweithio ym maes adeiladu y rhan fwyaf o'm bywyd.

Ar ôl gweithio gydag adeiladwr cyffredinol a phrofi gwahanol grefftau, toi oedd yr un a fwynheais fwyaf.

***Beth ydych chi'n ei wneud, o ddydd i ddydd?***

Fel arfer, rydym yn gweithio ar swyddi preswyl yn bennaf, ond mae ein diwrnod yn dibynnu ar y prosiect - gallem fod yn gweithio ar atgyweiriad, yn gwneud gwaith cynnal a chadw arferol neu'n ail-doi adeilad yn gyfan gwbl gan ddefnyddio llechi, plwm, neu deils.

Mae'n gorfforol feichus, ac rydym yn gweithio ar uchder felly mae disgwyl i ni ddringo ysgolion, gan gario gwahanol offer a deunyddiau trwy gydol y dydd. Gall fod yn ddechrau cynnar, felly gallwn wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y gwaith yn brydlon, yn enwedig gan fod llawer o'n gwaith yn dibynnu ar y tywydd.

***Sut ydych chi'n ei weld a beth ydych chi'n ei fwynhau fwyaf?***

Rwyf wrth fy modd bod yn yr awyr agored ac ymdrochi i brosiectau, gan ddefnyddio fy nwylo. Mae gennych chi lawer o gyfeillgarwch yn y swydd hefyd, ac mae'n wych bod gyda thîm da y gallwch chi gael hwyl gyda nhw.

© CITB & BizEd Projects CIC 2023

# CHWALU CHWEDLAU

***"Dim ond ar gyfer pobl 16-18 oed y mae prentisiaethau."***

Nid oes terfyn oedran uchaf ar brentisiaeth, gall unrhyw un 16+ wneud cais. Mae miloedd o brentisiaid adeiladu dros 25 oed ar hyn o bryd. Efallai y byddwch hefyd yn gallu uwchsgilio o fewn eich rôl bresennol gan ddefnyddio rhaglen brentisiaeth.

***"Nid yw prentisiaeth yn swydd go iawn."***

Ydy! Fel rhan o'r swydd real iawn hon, byddwch yn dysgu, yn ennill profiad, AC yn cael eich talu. Byddwch yn gyflogai gyda chontract cyflogaeth a gwyliau.



***"Mae prentisiaid yn talu am eu hyfforddiant."***

Anghywir. Yng Nghymru, mae prentisiaethau'n cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru felly yn wahanol i brifysgol, gallwch ennill cymhwyster, efallai hyd yn oed gradd, heb orfod cymryd benthyciad myfyriwr.

***"Nid yw cyflogau prentisiaethau yn dda."***

Mae'r cyflog prentisiaeth yr un fath â'r isafswm cyflog cenedlaethol i rai dan 18 oed. Os ydych yn 19+ bydd eich cyflog yn cynyddu i'r isafswm cyflog cenedlaethol ar gyfer eich oedran ar ôl y 12 mis cyntaf. Mae llawer o gyflogwyr hefyd yn cynnig cyflogau sy'n uwch na'r isafswm.


© CITB & BizEd Projects CIC 2023
© CITB & BizEd Projects CIC 2023

# CYNNYDD GYRFAOEDD

## *Sesiwn Holi ac Ateb gyda Harriet Silvester, o Brentis Priffyrdd Lefel 2 i Oruchwyliwr Gwaith Priffyrdd*

**Ar ôl cyflawni ei harholiadau Lefel A sicrhaodd Harriet swydd yn ei chyngor lleol fel Prentis Cynnal a Chadw Priffyrdd, gan ennill sawl cymhwyster ymarferol yn ogystal â'i phrentisiaeth.**

Mae hi wedi symud ymlaen i sawl rôl i gael un o'r rolau â'r cyflog uchaf ar yr offer fel gyrrwr graeanu cynnal a chadw gaeaf. Gan symud ymlaen unwaith eto daeth Harriet yn Uwch Dechnegydd Peirianneg, gan ennill cymwysterau mwy ffurfiol, gan gynnwys Tystysgrif Genedlaethol Uwch yn yr Amgylchedd Adeiledig a Diploma NVQ Lefel 4 mewn Goruchwylio Safle Adeiladu. Oherwydd ei phrofiad ymarferol a chymwysterau, llwyddodd i gael ei rôl bresennol fel Goruchwylydd Gwaith Priffyrdd.

Mae Harriet yn enghraifft eithriadol o'r dilyniant sydd ar gael mewn rolau sy'n ymwneud ag adeiladu, gan reoli tîm mawr o staff, dau ddepo, ac archebion gwaith o brosiectau mewnol ac allanol dim ond 6 blynedd ar ôl cwblhau Prentisiaeth Lefel 2.

***Pam wnaethoch chi ddewis prentisiaeth dros lwybrau cymhwyster eraill, fel prifysgol, swydd heb hyfforddiant, ac ati?***
Nid oedd y Brifysgol yn apelio ataf; Roeddwn yn ansicr beth roeddwn i eisiau ei wneud ac roedd y pwysau o ddewis gradd a allai effeithio ar fy ngyrfa am oes braidd yn ddigalon yn 18 oed.

Dewisais brentisiaeth oherwydd roeddwn i eisiau ennill arian ac ennill cymwysterau mewn crefft gyda'r potensial i fynd â fi i unrhyw gyfeiriad.
**Hwn oedd y penderfyniad gorau i mi ei wneud erioed, mewn byd lle mae prifysgol yn dod yn norm, mae gallu gwneud rhywbeth sy'n fy ngwahanu i fy nghyfoedion a chael profiad ymarferol wedi bod o fudd i mi.**

***Pam wnaethoch chi ddewis Cynnal a Chadw Priffyrdd?***
Mae cynnal a chadw priffyrdd yn un o'r crefftau aur hynny...mae'r cymwysterau yr wyf wedi'u hennill yn cael eu cydnabod ac mae galw amdanynt ledled y byd, sy'n fy ngalluogi i weithio dramor neu sefydlu fy musnes fy hun.



***Beth fu eich brwydr fwyaf?***
Mae bod y "boi newydd" mewn unrhyw sefyllfa yn frawychus ond yn arbennig o frawychus yn 18 oed pan fyddwch chi'n syth allan o'r ysgol. Fy nghyngor i yw cofio bod pawb yn newydd ar un adeg. Mae angen i chi neidio ar bob cyfle i gael hyfforddiant a chymwysterau pellach oherwydd y ffordd gyflymaf i wella a symud ymlaen yn y grefft hon yw casglu cymwysterau sy'n ategu eich profiad.

***Beth yw eich cynlluniau?***
Er gwaethaf derbyn sawl cynnig i ymuno â chwmnïau eraill mewn rolau tebyg, mae gennyf bob bwriad i barhau â'm gyrfa o fewn fy nghwmni presennol. Dod o hyd i gwmni sy'n eich meithrin chi a'ch dilyniant fydd un o'ch asedau mwyaf.




© CITB & BizEd Projects CIC 2023
© CITB & BizEd Projects CIC 2023

# LEFELAU PRENTISIAETH

**Mae yna lefelau gwahanol o brentisiaethau, sy'n eich galluogi i gael mynediad ar lefel sy'n iawn i chi a symud ymlaen yn eich gyrfa. Mae pob un yn amrywio o ran hyd, gofynion mynediad a chyflwyniad.**

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan Am Adeiladu neu cliciwch yma.

am Adeiladu

Gall y fanyleb amrywio yn dibynnu ar y darparwr prentisiaeth a hyfforddiant.

## Canolradd Lefel 2

**Cyfwerth â:**
5 TGAU graddau A*-C

**Gofynion Mynediad:**
D mewn TGAU Mathemateg, Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf. Nid oes angen unrhyw gymwysterau ffurfiol ar rai.

Hyd: 2 flynedd

## Uwch Lefel 3

**Cyfwerth â:**
2 bás Lefel A/Safon Uwch

**Gofynion Mynediad:**
A*-C mewn TGAU Mathemateg, Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf

Hyd: 2-3 blynedd

## Higher Level 4,5,6,7

**Cyfwerth â:**A Gradd Sylfaen neu radd israddedig blwyddyn 1af.

**Gofynion Mynediad:** 5 TGAU A*-C, gan gynnwys Mathemateg, Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf

Hyd: 2 flynedd

## Lefel Gradd 6,7

**Equivalent of:**
Gradd Anrhydedd Iawn.

Ar hyn o bryd yn cael ei ddatblygu yng Nghymru a bydd yn cynnwys Peirianneg Sifil, Tirfesur, Rheoli Adeiladu a Dylunio

Hyd: 3-5 mlynedd


© CITB & BizEd Projects CIC 2023
© CITB & BizEd Projects CIC 2023

# BLE I GANFOD MWY AM BRENTISIAETHAU

## De-ddwyrain Cymru

### Coleg Penybont, Pencoed
https://www.bridgend.ac.uk/?lang=cy

**Pwy i gysylltu â nhw:**

Deb Kingman 01656763233
apprenticeship@bridgend.ac.uk

### Coleg Caerdydd a'r Fro
https://cavc.ac.uk/cy

Campysau yng Nghaerdydd a'r Barri

**Pwy i gysylltu â nhw:**

Stewart Woodward 07463275966

swoodward@cavc.co.uk

### Coleg Gwent
https://www.coleggwent.ac.uk/cy

Campysau yng Nghasnewydd, Blaenau Gwent

**Pwy i gysylltu â nhw:**

Kate Walker 01495333294

kate.walker@coleggwent.ac.uk

### Coleg Y Cymoedd
https://www.cymoedd.ac.uk/

Campysau yn Aberdâr, Nantgarw, Ystrad Mynach a Chaerffili

**Pwy i gysylltu â nhw:**

Mike Winter 01443 663163

michael.winter@cymoedd.ac.uk

### Coleg Castell-nedd Port Talbot
https://www.nptcgroup.ac.uk/cy/

Campysau yn Aberhonddu, Abertawe, Castell-nedd, Afon

## Gogledd Cymru

### Coleg Cambria
https://www.cambria.ac.uk/?lang=cy

Campysau yng Nglannau Dyfrdwy a Wrecsam

**Pwy i gysylltu â nhw:**

0300 30 30 006/
employers@cambria.ac.uk

### Grwp Llandrillo Menai
https://www.gllm.ac.uk/cy

Campysau yn Llandrillo-yn-Rhos, y Rhyl, Llangefni a Dolgellau

**Pwy i gysylltu â nhw:**

Jennifer Jones – Rhos and Rhyl
or Iona – Llangefni and Dolgellau


© CITB & BizEd Projects CIC 2023

## Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Coleg Ceredigion, Cardigan
https://www.ceredigion.ac.uk

**Pwy i gysylltu â nhw:**

Tanya Collins 07900 164133

Tanya.collins@ceredigion.ac.uk

### Coleg Sir Gar
https://www.colegsirgar.ac.uk/

Campysau yn Rhydaman a Bae Abertawe

**Pwy i gysylltu â nhw:**

Gareth David

gareth.david@colegsirgar.ac.uk

### Coleg Gŵyr
https://www.gcs.ac.uk/cy

Campysau yn Fforestfach, Tycoch a Phen-y-bont ar Ogwr

**Pwy i gysylltu â nhw:**

Leanne Evans 07824159462

leanne.evans@gowercollegeswansea.ac.uk

### Hyfforddiant Ceredigion Training, Aberystwyth
https://www.ceredigiontraining.co.uk

**Pwy i gysylltu â nhw:**

Craig Davies 07929750921

c.davies40@hctceredigion.org.uk

### NPTC Y Drenewydd
https://www.nptcgroup.ac.uk/cy/

**Pwy i gysylltu â nhw:**

Clare Ward 07500250010

clare.ward@nptcgroup.ac.uk

### Coleg Benfro
https://www.pembrokeshire.ac.uk/?lang=cy

**Pwy i gysylltu â nhw:**

Chris Curtis 07896836771

chrisc@pembrokeshire.ac.uk

## Prentisiaethau Arbenigol

Mae yna nifer o brentisiaethau crefft "arbenigol" sy'n cael eu rheoli gan CITB ac sy'n cynnwys mynychu Coleg Saesneg. Os oes angen rhagor o gyngor arnoch, cysylltwch â:

### De Cymru
- Peter Carey
- 07778429151
- peter.carey@citb.co.uk

### Gogledd a Chanolbarth Cymru
- Alexandra Morris
- 07384 876722
- Alexandra.morris@citb.co.uk

© CITB & BizEd Projects CIC 2023

Gyda diolch i'n cefnogwyr:

I gael rhagor o gymorth a mwy o wybodaeth, cysylltwch â CITB: [citb.co.uk/cy-gb/](citb.co.uk/cy-gb/)

© CITB & BizEd Projects CIC 2023